

Ysgol I.D. Hooson  
Heol Caradog  
Rhosllannerchrugog  
LL14 2DX  
Ffôn: 01978 832950  
Ffacs: 01978 832955  
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



## YSGOL I.D. HOOSON

12.05.21

Annwyl Rieni / Ofalwyr,

### Cwricwlwm 2022

Wrth i'r ysgol baratoi tuag at gwricwlwm newydd 2022, rydym yn awyddus i gasglu barn o holl rhanddeiliaid wrth i ni gynllunio ein gweledigaeth tuag at gwricwlwm newydd i Ysgol I D Hooson. Mae ffocws y cwricwlwm ar 4 pwrpas craidd sydd yn datgan y dylai ein plant fel dysgwyr ifanc ddod yn :

Gyfranwyr mentrus a chreadigol  
Ddinasyddion egwyddorol, gwybodus  
Unigolion iach a hyderus.  
Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog

Byddai eich mewnbwn i'r broses o gynllunio ein cwricwlwm yn werthfawr a defnyddiol, ac felly byddem yn gwerthfawrogi os byddech yn gallu nodi unrhyw syniadau o ran beth ydych yn teimlo byddai'r elfennau allweddol a ddylai gael ei chynnwys mewn cwricwlwm i blant Ysgol I D Hooson. Mae'r canlynol yn nodi rhai syniadau cychwynnol y gallech ei hystyried. A fyddech cystal â nodi lawr eich sylwadau neu syniadau yn y blwch isod, gan ddychwelyd i'r athro dosbarth erbyn dydd **Llun Mai 17eg**.

*Dysgwyr annibynnol*

*Ymwybyddiaeth o'r byd o'n cwmpas*

*Ymwybyddiaeth o Ddiwylliant a Threftadaeth*

*Cwricwlwm sydd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu fel unigolion parchus*

*Cyfleoedd i ddatblygu yn greadigol*

*Paratoi ein plant at sefyllfaoedd bywyd go iawn*

*Cyfleoedd i ymarfer sgiliau bywyd*

*Paratoi tuag at fyd sydd yn newid yn gyflym*

Beth ydw i'n credu dylai gael ei gynnwys mewn cwricwlwm i ddisgyblion Ysgol ID Hooson?

Enw/Name: \_\_\_\_\_

Diolch yn fawr am eich amser yn ymateb i'r wybodaeth ac am eich cefnogaeth a chyd-weithrediad barhaus.

Yn gywir,

Rhodri Jones  
Pennaeth